OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3082 (Cy. 306)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Tachwedd 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20 Tachwedd 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *17 Rhagfyr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970(**1**), a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2014, a deuant i rym ar 17 Rhagfyr 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae i "anhwylder meddyliol yr un ystyr ag a roddir i "mental disorder" yn adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**4**).

### Diwygio'r Rheoliadau

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(**5**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (8).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "bathodyn person anabl" yn lle "ar y ffurf a ragnodir gan reoliad 11" rhodder "ar ffurf a bennir neu a gymeradwyir yn unol ag adran 21(1A) o Ddeddf 1970".

(**1**) 1970 p.44. Diwygiwyd adran 21, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru, gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40) adran 35, Atodlen 8 a Deddf Bathodynnau Parcio Personau Anabl (p.4) adrannau 1 i 6.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi.

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) Diwygiwyd adran 2(1) gan baragraff 2 o Atodlen 10 i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (p.12).

(**5**) O.S. 2000/1786 (Cy.123).

(3) Yn rheoliad 4 (disgrifiadau o bersonau anabl)—

(a) yn lle paragraff (2)(ch2) rhodder—

"(ch2) wedi cael budd-dal cyfandaliad o dan erthygl 15(1)(a) o Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Iawndal) 2011(**6**) ("Gorchymyn 2011")—

(i) o fewn lefelau tariff 1 i 8 yn gynwysedig fel y nodir yn Rhan 1, Atodlen 3 i Orchymyn 2011 ac wedi ei ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel un sydd ag anabledd parhaol a sylweddol sy'n achosi anallu i gerdded neu anhawster cerdded sylweddol iawn; neu

(ii) ar lefel tariff 6 yn Nhabl 3 (Anhwylder Meddyliol) o Ran 1, Atodlen 3 i Orchymyn 2011.";

(b) ar ôl paragraff (2)(dd) mewnosoder—

"(dd2) o ganlyniad i anhwylder meddyliol, yn methu â dilyn llwybr taith gyfarwydd heb gymorth person arall; ".

(4) Yn rheoliad 8 (seiliau dros wrthod rhoi bathodyn), ym mharagraff (2)(d), yn lle "sydd wedi'i roi gan awdurdod rhoi arall" rhodder "a roddwyd o dan adran 21 o Ddeddf 1970 neu fathodyn a gydnabyddir o fewn ystyr adran 21A o'r Ddeddf honno".

(5) Yn rheoliad 9 (dychwelyd bathodyn i'r awdurdod rhoi)—

(a) ym mharagraff (1)(dd), dileer "neu fod bathodyn dilys arall yn cael ei roi i'r deiliad gan awdurdod rhoi arall";

(b) ar ôl paragraff (1)(dd), mewnosoder—

"; neu

(e) bod bathodyn dilys arall yn cael ei roi i'r deiliad o dan adran 21 o Ddeddf 1970 neu fathodyn a gydnabyddir o fewn ystyr adran 21A o'r Ddeddf honno.";

(c) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

"(1A) Yn achos bathodyn y mae adran 21(4D)(b)(iii) o Ddeddf 1970 yn gymwys iddo a gedwir gan gwnstabl neu swyddog gorfodi yn unol â'r adran honno, rhaid i'r bathodyn gael ei ddychwelyd cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol—

(a) i'r awdurdod rhoi; a

(b) ar ôl ei ddychwelyd i'r awdurdod rhoi, gan yr awdurdod rhoi i'r deiliad, ar yr amod nad oes gan yr awdurdod rhoi seiliau ar gyfer rhoi hysbysiad i'r deiliad yn unol â pharagraff (2)."

(6) Yn y pennawd i Ran III, yn lle "Ffurf Bathodynnau a'u Harddangos" rhodder "Arddangos Bathodynnau".

(7) Hepgorer rheoliad 11 (ffurf bathodyn).

(8) Hepgorer yr Atodlen.

*Edwina Hart*
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

18 Tachwedd 2014

(**6**) O.S. 2011/517.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae bathodyn parcio person anabl ("Bathodyn Glas") yn galluogi'r deiliad i fanteisio ar nifer o gonsesiynau parcio ac esemptiadau rhag taliadau penodol sy'n gymwys i fodurwyr eraill. Mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 ("y Prif Reoliadau") yn gwneud darpariaeth am roi bathodynnau gan awdurdodau lleol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Prif Reoliadau i adlewyrchu diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Bathodynnau Parcio Personau Anabl 2013 ("Deddf 2013"), i adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 ("Deddf 1970") ynghylch ffurf y Bathodyn Glas ac yn egluro'r modd y cymhwysir darpariaethau penodol o'r Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2 hefyd yn cyflwyno 2 ddosbarth newydd o gymhwystra. Caniateir i Fathodyn Glas gael ei ddarparu bellach i bersonau sy'n derbyn budd-daliadau penodol mewn cyfandaliadau a ddarperir o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd wrth Gefn (Cynllun Iawndal) 2011 pan fônt wedi dioddef anhwylder meddyliol parhaol sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i weithredu. Caniateir darparu Bathodyn Glas hefyd i bersonau nad ydynt, o ganlyniad i anhwylder meddyliol, yn gallu dilyn llwybr taith gyfarwydd heb gymorth person arall.

Mae paragraff (2) o reoliad 2 yn diwygio'r diffiniad o "bathodyn person anabl" i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2013 sy'n darparu bod yn rhaid i fathodynnau bellach fod ar ffurf a gymeradwyir yn unol ag adran 21(1A) o Ddeddf 1970 yn hytrach nag ar ffurf a ragnodir mewn rheoliadau.

Mae paragraff (4) o reoliad 2 yn egluro darpariaethau'r Prif Reoliadau sy'n caniatáu awdurdod i wrthod rhoi bathodyn mewn amgylchiadau pan fo'r ceisydd eisoes yn dal bathodyn a roddwyd gan awdurdod arall, fel eu bod hefyd yn gymwys i fathodyn a roddwyd y tu allan i Gymru.

Mae paragraff (5) o reoliad 2 yn egluro darpariaethau'r Prif Reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r bathodyn gael ei ddychwelyd mewn amgylchiadau pan roddir bathodyn i ddeiliad gan fwy nag un awdurdod, fel eu bod hefyd yn gymwys i fathodynnau a roddir y tu allan i Gymru. Mae hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd bod yn rhaid i fathodyn a gedwir gan gwnstabl neu swyddog gorfodi mewn amgylchiadau penodol yn unol â phŵer newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013, gael ei ddychwelyd i'r deiliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.